***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 357 (Cy.45)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *14 Chwefror 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *20 Chwefror 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2006. Deuant i rym ar 20 Chwefror 2006 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005

**2.** Diwygir Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005(**3**) yn unol â rheoliadau 3 i 5.

**3.** Yn rheoliad 2(1) (Dehongli)—

(a) ar ddiwedd y diffiniad o "Commission Regulation 795/2004" mewnosoder ", as last amended by Commission Regulation (EC) No. 394/2005(**4**), Commission Regulation (EC) No. 606/2005(**5**), Commission Regulation (EC) No. 1085/2005(**6**) and Commission Regulation (EC) No. 1701/2005(**7**)."; a,

(**1**) O.S. 2005/2766.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2005/360 (Cy.29).
(**4**) O.J. Rhif L63, 10.3.2005, t.17.
(**5**) O.J. Rhif L100, 20.4.05, t.15.
(**6**) O.J. Rhif L 177, 9.7.05, t.27.
(**7**) O.J. Rhif L273, 19.10.05.

(b) ar ddiwedd y diffiniad o "Commission Regulation 796/2004" mewnosoder ", as last amended by Commission Regulation (EC) No. 239/2005(**8**) and Commission Regulation (EC) No.1954/2005(**9**) and Commission Regualtion (EC) No. 2184/2005(**10**).".

**4.** Yn lle rheoliad 6 (cyfnod o 10 mis), rhodder y canlynol—

"**10 month period**

**6.**—(1) For the purposes of Article 24(2), first subparagraph, of Commission Regulation 795/2004, the period in which the beginning of the 10 month period referred to in Article 44(3) of the Council Regulation is to be fixed, is the period beginning on 1 October of the calendar year preceding the year of submitting an application under the Single Payment Scheme and ending on 30 April of the year of application.

(2) For the purposes of Article 24(2), second subparagraph, of Commission Regulation 795/2004, farmers are authorised to fix two different dates for the beginning of the 10 month period.".

**5.** Yn rheoliad 9 (Trosglwyddiadau), dileer paragraff (2) ac yn lle'r cyfeiriad at rif "9.—(1)" rhodder y cyfeiriad at rif "9".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**11**)

*John Marek*

14 Chwefror 2006 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**8**) O.J. Rhif L042, 12.2.05, t.3

(**9**) O.J. Rhif L314, 30.11.05, t.10.

(**10**) O.J. Rhif L347, 30.12.05, p.61.

(**11**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005 (O.S. 2005/360 (Cy.29)) ("y prif Reoliadau"). Mae'r prif Reoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1782/2003 (O.J. Rhif L270, 21.10.2003, t.1) ("Rheoliad y Cyngor"), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 795/2004 (O.J. Rhif L 141, 30.4.2004, t.1) ("Rheoliad y Comisiwn 795/2004") a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 796 /2004 (O.J. L141, 30.4.2004, t.18) ("Rheoliad y Comisiwn 796/2004") mewn perthynas â sefydlu system newydd o gynlluniau cymorth uniongyrchol (gan gynnwys Cynllun y Taliad Sengl) o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Daeth y system newydd hon yn effeithiol ar 1 Ionawr 2005.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru cyfeiriadau yn y prif Reoliadau at Reoliad y Comisiwn 795/2004 a Rheoliad y Comisiwn 796/2004 i adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed i'r rheoliadau hynny ers i'r prif Reoliadau ddod i rym (rheoliad 3).

Maent hefyd yn rhoi rheoliad 6 newydd yn y prif Reoliadau er mwyn awdurdodi ffermwyr i wneud defnydd o'r posibilrwydd, a gyflwynwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 606/2005, o bennu dau ddyddiad gwahanol ar gyfer dechrau'r cyfnod o 10 mis pan fo'n rhaid i barseli o dir cymwys fod ar gael at ddefnydd ffermwr at ddibenion cynllun y taliad sengl (rheoliad 4).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dileu paragraff (2) o reoliad 9 o'r prif Reoliadau a thrwy hynny'n caniatáu i'r cyfnod pan fo'n rhaid hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o drosglwyddiadau hawl i daliad gael ei benderfynu'n unol â phwerau disgresiynol a roddir i'r Cynulliad Cenedlaethol, fel un o awdurdodau cymwys yr aelod-wladwriaeth, o dan Erthygl 25(3) o Reoliad y Comisiwn 795/2004.

Paratowyd arfarniad rheoliadol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ac mae ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.